

## GAEAF 2020

### BLWYDDYN NEWYDD

**Diolch o galon i bawb am eu haelioni tuag atom dros gyfnod y Nadolig. Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr. Hoffem ddymuno'n dda i'n cleifion a'u teuluoedd ar gyfer 2020.**

### GWEFAN NEWYDD

**Mae ein gwefan newydd yn fyw <https://www.uwchaledmedicalpractice.wales.nhs.uk/>**

Gobeithiwn y bydd y wefan yn ddefnyddiol i chi. Cofiwch ymweld â'r wefan o bryd i'w gilydd am y wybodaeth ddiweddaraf. Byddem yn falch o dderbyn eich adborth neu syniadau ar gyfer ei datblygu ymhellach.

Mae'r fersiwn Gymraeg o'r wefan yn ddibynnol ar 'Google Translate' yn anffodus. Ymddiheurwn yn fawr am hyn. Mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn parhau a byddwn yn gweithio i geisio cael datrysiaid yn ystod y flwyddyn.

### NEWIDIADAU

Dros y misoedd nesaf bydd y practis yn gwneud nifer o newidiadau i systemau a modd o weithio. Mae rhai newidiadau yn angenrheidiol oherwydd gofynion Llywodraeth Cymru neu'r Bwrdd Iechyd Lleol ac eraill yn addasiadau y mae'r busnes yn dymuno ei wneud. Nod y newidiadau yw moderneiddio a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn ceisio'n gorau i'ch hysbysu gan roi digon o rybudd cyn i newidiadau gymryd lle. Dyma'r newidiadau sydd ar y gweill gyntaf;

#### System Ffôn

O'r 1af o Chwefror bydd neges ddwyieithog wedi ei recordio i'w glywed cyn i'r derbynnydd ateb y ffôn. Bydd pob galwad yn cael eu recordio at ddibenion diogelwch ac ansawdd. Mae'r rhain yn ofynion Llywodraeth Cymru.

#### Negeseuon

O'r 1af o Chwefror, bydd y rheiny sydd wedi cofrestru a'r system ar lein 'Fy Iechyd ar-lein' yn gallu anfon negeseuon i'r practis yn uniongyrchol drwy'r system.

#### Postio Presgripsiwn

Os ydych yn glaf sy'n casglu eich presgripsiwn o fferyllfa leol, hoffem eich gwneud yn ymwybodol mai unwaith yr wythnos y byddwn yn postio i fferyllfeydd o'r 1af o Chwefror ymlaen, a hynny ar ddydd Gwener. Golyga hyn fod yn rhaid i chi roi digon o rybudd i ni gan hefyd ystyried y rhybudd y mae'r fferyllfa angen i baratoi eich presgripsiwn.

#### Derbynfya

Bydd derbynfya newydd yn cael ei greu. Y prif reswm dros hyn yw i wahanu'r fferyllfa a'r dderbynfya er mwyn gwella'r amgylchedd weithio i staff a gwahaniaethu rhwng y ddau wasanaeth. Gobeithiwn y bydd cleifion yn profi gwelliant yn y gwasanaeth a dderbynnir yn ogystal.

### PRINDER CYFFURIAU

Oherwydd prinder cyffuriau cenedlaethol, rydym yn cael trafferth cael gafael ar rai meddyginiaethau ar hyn o bryd ac mae eraill nad ydynt ar gael o gwbl. Mae'r rhestr o gyffuriau sy'n cael eu heffeithio yn tyfu a'r sefyllfa yn newid yn barhaol.

Mae'r sefyllfa y tu hwnt i'n rheolaeth ni, felly os gwelwch yn dda byddwch yn amyneddgar.

Os oes gennych unrhyw ofidiau neu gwestiynau, siaradwch a Sian Williams, Rheolwr y Fferyllfa os gwelwch yn dda.

## CAR Y LLAN CLUDIANT CLEIFION



### Yw cludiant yn problem?

Mae Car y Llan ar gael i ddarparu cludiant o'ch cartref i'r feddygfa.

- ✓ Gwasanaeth ar gael ar ddydd lau a Gwener yn wythnosol
- ✓ Cerbyd sy'n addas ar gyfer cadair olwyn
- ✓ Gwasanaeth sy'n arbennig i gleifion heb gludiant
- ✓ Cost bychan o 25c y filltir, gyda uchafswm o £5

### Os yr hoffech ddefnyddio'r gwasanaeth

Siaradwch ac aelod o staff  
er mwyn gwneud trefniadau

**01490 420210**

Cynllun cludiant cymunedol a arweinir gan wirfoddolwyr  
er budd cleifion gwledig